

Rhaglen Ebrill i Fedi 2012

Gwirfoddolwyr

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych



Croeso

Mae yna ystod o gyfleoedd i chi gymryd rhan yng ngwaith Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych – ac mae arnom angen eich help! O'r Rhyl a Phrestatyn yn y gogledd ar hyd Ffyniau Clwyd i Hiraethog a Dyffryn Dyfrdwy yn y de – gallwch ymuno'n achlysurol neu bob wythnos – chi piau'r dewis.

Bydd tasgau'n amrywio o blannu coed i godi waliau cerrig sychion, adeiladu llwybrau i greu cynefinoedd bywyd gwyllt. Nid oes angen profiad blaenorol – fe roddir hyfforddiant ac mae croeso i chi weithio'n ôl eich cyflymder eich hun.

I gael hwn mewn fersiynau Braille, print mawr neu dâp ffonwch am ddim ar 0800 243980



Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Parc Gwledig Loggerheads
01352 810614

Gogledd Sir Ddinbych (Y Rhyl)
01745 356197

De Sir Ddinbych (Llangollen)
01978 869618

Cyngor Iechyd a Diogelwch

Fe wnaiff y Gwasanaeth Cefn Gwlad ddarparu'r holl ddillad diogelwch sy'n angenrheidiol. Cofiwch wisgo esgidiau cryfion efo gafael da arnyn nhw, cymeradwyir esgidiau mawr efo trwynau esgid dur ar gyfer y rhan fwyaf o swyddi. Dewch â dillad rhag glaw efo chi a chinio pecyn. Mae'n rhaid i rai dan 14 oed fod gyda rhiant/gwarcheidwad. Yn anffodus ni allwn weithio efo plant sydd o dan 8 oed.

www.ahnebryniauclwyd.org.uk
www.cefngwladssirddinbych.org.uk

I wybod mwy am ein digwyddiadau diweddaraf, cliciwch i ddweud eich bod yn hoffi tudalen Facebook AHNE Bryniau Clwyd a Chefn Gwlad Sir Ddinbych



Printiwyd ar inciau llysiuol ar bapur sydd wedi'i ddefnyddio'n barod, wedi'i ailgylchu a heb ei gannu.



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty



Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Dydd Mawrth 3^{ydd} 10^{am} – 3^{pm}

Diwrnod blychau adar ac ystlumod

Dewch i'n helpu i baratoi blychau adar ac ystlumod eleni. Mae Loggerheads yn denu llawer o wahanol adar ac mae pob un angen rhywle i fyw! Felly, dewch i roi tro ar eich sgiliau gwaith coed! Gallwch ein cyfarfod yn y maes parcio.

Dydd Mercher 4^{ydd} 10^{am} – 3^{pm}

Cadw ar Ben Pethaul!

Llechwedd Prestatyn / Coedwig yr Esgob
Cynnal a chadw a gwella'r safle'n gyffredinol, gwaith ar lwybrau troed yn y coetir ac ar y Llechwedd
Cyfarfod: Y maes parcio islaw Gerddi'r Llechwedd (SJ 071 821)

Dydd Iau 5^{ed} 10^{am}

Rheoli Gwrychoedd

Yn ystod y gaeaf 2010, gyda chymorth ysgol gynradd Rhos Street, Rhuthun, cafodd 250 metr o wrych drain ei blannu. Cyn iddo gael ei fygu gan fieri a chwlwm y cythraul, mae'n rhaid clirio o'i gwmpas, a sodlu'r coed i helpu creu gwrych iach.
Cyfarfod: Y Cilfan gyferbyn â'r tai newydd yng Nglasdir (SJ 119 590)

Dydd Mawrth 10^{fed} 10^{am}

Glanhau Mawr y Gwanwyn

Mae digon i'w wneud bob amser yng Nghoed Nercwys, helpu gwella'r Llwybr Pob Defnyddiwr, clirio ffosydd, gwella'r ardal o gwmpas y bwthyn - bydd y goedwig yn falch o ychydig o lafur cariad! Cyfarfod yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 5930)

Dydd Mercher 11^{eg} 10^{am} – 3^{pm}

Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg

Cynnal a chadw a gwella trothwy a seilwaith y safle o gwmpas yr Warchodfa Natur Leol.
Cyfarfod: Mynedfa ddwyreiniol y safle rhwng pentref Maeshafn a'r cyn adeilad hostel ieuencid (SJ 205 608)

Dydd Llun 16^{eg} 10^{am}

Hel Sbwriel

Ar ôl gwyliau Pasg prysur, dewch i fwynhau taith gerdded at Dŵr y Jiwibili -a hel sbwriel ar y ffordd! Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras. (SJ 162 606)

Dydd Mawrth 24^{ain} 10^{am} – 3^{pm}

Tynnu Ragwort (Creulys Iago)

Mae rhai rhywogaethau'n dibynnu ar Greulys Iago am fwyd. Fodd bynnag, gan y gallai ddod yn gae gwair, a'i bod yn agos at gaeau lle mae ceffylau'n pori, rydyn ni'n ceisio cael gwared ohono o warchodfa Rhuddlan.
Cyfarfod: Prif faes parcio Gwarchodfa Natur Rhuddlan (SJ 020 777)

Dydd Iau 26^{ain} 10^{am}

Gwella Mynedfa Caer Drewyn

Dewch a helpu gwella ymylon y llwybr troed ar y ffordd i fyny at gaer Caer Drewyn - byddwn hefyd yn gosod mainc dderw newydd.
Cyfarfod: Maes Parcio Canolfan Hamdden Corwen.



Mai

Dydd Mawrth 1^{af} 10^{am}

Atyniad y Coed

Helpwch i wella'r fynedfa i'r Goedardd er mwyn annog rhagor o ymwelwyr i fwynhau'r atyniad. Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau. (SJ 174 613)



Dydd Mercher 2^{il} 10^{am} – 3^{pm}

Cadw ar Ben Pethau!

Llechwedd Prestatyn / Coedwig yr Esgob
Cynnal a chadw a gwella'r safle'n gyffredinol, gwaith ar lwybrau troed yn y coetir ac ar y Llechwedd.

Cyfarfod: Y maes parcio islaw Gerddi'r Llechwedd (SJ 071 821)

Dydd Iau 3^{ydd} 10^{am} – 3^{pm}

Ffensio'r môr-wennol fach

Tywydd da, llwythi o bysgod a llawer o lygod y gwair i'r cudyll coch, dyna ein gobaith eleni. Un peth arall, bydd y ffens trydan y byddwn yn ei gosod heddiw'n cadw'r cadno coch allan!

Cyfarfod: Adwy cae yn nhwyni Gronant, wrth y fynedfa i Presthaven (SJ 074 842)

Dydd Mawrth 8^{fed} 10^{am} – 3^{pm}

Manion bethau

Mae rhywbeth arall i'w wneud ym mharc Loggerheads bob amser. Dewch i'n helpu i gadw trefn a'i gadw'n edrych ar ei orau! Gallwch ein cyfarfod yn y maes parcio.

Dydd Mercher 9^{ed} 10^{am} – 3^{pm}

Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg

Cael gwared ar blanhigion ymwithiol ar y waun, trwsio ffensys, gwella llwybrau troed. Cyfarfod: Mynedfa ddwyreiniol y safle (SJ 205 608)

Dydd Gwener 11^{eg} 10^{am} – 1^{pm}

Y Glwyd Gyntaf

Helpwch i wneud ffensys stoc traddodiadol o gyll wedi'i docio. Bydd y cyll, adnodd cynaliadwy Mount Wood, yn edrych yn dda ar y llwybr i fyny at yr olygfan. Cyfarfod: Adwy cae Mount Wood o ystâd Bryn Stanley. (SJ 047 658)

Dydd Mawrth 15^{fed} 10^{am}

Y cae

Helpwch i chwynnu a chlirio cerrig yn y cae a rhoi cyfle i'r planhigion gwyllt flodeuo. Cyfarfod yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 5930)



Dydd Mercher 16^{eg} 10^{am} – 3^{pm}

Gwarchodfa Natur Leol Foel Findeg

Cynnal arolwg ar y gwahanol blanhigion a blodau sydd i'w canfod yng nghoedwigoedd a gweundir Gwarchodfa Natur Leol Moel Findeg.

Cyfarfod: Mynedfa ddwyreiniol y safle (SJ 205 608)

Dydd Llun 21^{ain} 10^{am}

Ffens Foel Fenlli



Mae angen cael gwared ar hen ffens wedi malu a rhoi un newydd yn ei lle rhag i safle'r Gaer Oes yr Haearn erydu rhagor. Cyfarfod ym maes parcio Moel Fenlli. (SJ 161 606)

Dydd Mawrth 22^{ain} 10^{am} – 3^{pm}

Gwaith trwsio ffensys y llwybrau

Mae ffensys ar lwybrau'r parc angen ychydig o ofal. Dewch i roi help llaw i drwsio'r rhai wedi torri i'w gwneud i edrych yn ffres a newydd! Cyfarfod ym maes parcio Loggerheads.

Dydd Mawrth 22^{ain} – Dydd Iau 24^{ain} 10^{am} – 4^{pm}

Codi Waliau Sychion

Rhowch dro – neu wella'ch sgiliau – ar godi waliau sychion. Byddwn yn ail adeiladu rhannau o'r wal derfyn ger Caer Drewyn felly bydd yn gyfle i ddysgu ychydig hefyd ynghylch sut roedd ein cyndadau'n arfer byw yma.

Cyfarfod: Maes Parcio Canolfan Hamdden Corwen

Dydd Iau 31^{ain} 10^{am}

Atgyweirio llwybr a thocio

Dewch i'w gwneud yn haws i gerdded y llwybr troed at olygfan anhygoel Coed Pen y Pigyn. Cyfarfod yn y prif faes parcio, Corwen.

Mehefin

Dydd Mawrth 5^{ed} 10^{am} – 3^{pm}

Rheoli Prysg

Mae'r gwahanol gynefinoedd sydd ym Mharc Gwledig Loggerheads yn ei wneud yn lle arbennig iawn. Dewch i'n helpu i gael gwared ar rai o'r rhywogaethau ymwithiol sy'n bygwth y cynefin bregus ar y palmant carreg galch! Cyfarfod yn y maes parcio.

Dydd Iau 7^{fed} 10^{am}

Ffrwyno'r Ffromlys Rhan 1

Mae angen help i gael gwared ar dyfiant trwchus Ffromlys yr Himalaya o lannau Afon Dyfrdwy.

Dewch ag esgidiau glaw.

Cyfarfod ym Maes Parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Corwen.

Dydd Mercher 13^{eg} 10^{am} - 3^{pm}

Llechwedd Prestatyn / Coedwig yr Esgob

Byddwn yn cerdded Llechwedd Prestatyn ar Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa a thorri'r drain sy'n bygwth cau'r llwybr.

Cyfarfod: Y maes parcio islaw Gerddi'r Llechwedd (SJ 071 821)

Dydd Iau 14^{eg} 10^{am} – 3^{pm}

Rheoli gwlypdir

Prif dasg y diwrnod fydd codi ffens i gadw stoc o ran o ddôl Maes Gwilym. Rydyn ni'n gobeithio rheoli'r rhan yma fel man â phwll yn cael ei warchod gyda.

Cyfarfod: Diwedd ystâd dai Maes y Gog yn y Rhyl, sef y fynedfa i Faes Gwilym (SJ 031 819)

Dydd Iau 14^{eg} 10^{am}

Ffrwyno'r Ffromlys Rhan 2

Help i gael gwared â thyfiant trwchus Ffromlys yr Himalaya o lannau Afon Dyfrdwy.

Dewch ag esgidiau glaw.

Cyfarfod ym Maes Parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Corwen.

Dydd Llun 18^{fed} a Dydd Mawrth 19^{eg} 10^{am} - 3^{pm}. Codi Waliau Sychion



Mae'n dal angen help i ail adeiladu'r wal derfyn ar Foel Famau. Dewch i wella'ch gallu neu i ddysgu gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 174 613)

Dydd Iau 21^{ain} 10^{am}

Ffrwyno'r Ffromlys Rhan 3

Mae angen help i gael gwared â thyfiant trwchus Ffromlys yr Himalaya o lannau Afon Dyfrdwy.

Dewch ag esgidiau glaw.

Cyfarfod ym Maes Parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Corwen.

Dydd Mawrth 26^{ain} 10^{am} – 3^{pm}

Tynnu Ffromlys yr Himalaya

Mae'n adeg yna o'r flwyddyn eto, felly, gwisgwch eich esgidiau glaw a dewch i'n helpu i chwilio a thynnu Ffromlys yr Himalaya eithriadol o ymwithiol o lannau Afon Alyn.

Cyfarfod ym maes parcio Loggerheads.

Dydd Iau 28^{ain} 10^{am}

Ffrwyno'r Ffromlys Rhan 4

Mae angen help i gael gwared â thyfiant trwchus Ffromlys yr Himalaya o lannau Afon Dyfrdwy.

Dewch ag esgidiau glaw.

Cyfarfod ym Maes Parcio'r Pafiliwn Chwaraeon, Corwen.

Morwennol fac a chiw with chick



John Powers

Gorffennaf

Dydd Mawrth 3^{ydd} 10^{am}

Rhacsio'r Rhedyn

Helpwch y coed ifanc i dyfu'n gryf drwy rhacsio'r rhedyn a'r mieri yn y Goedardd. Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau. (SJ174 613)



Dydd Iau 5^{ed} 10^{am}

Gosod Meinciau Rhan 1

Mae angen help i osod meinciau newydd ar nifer o'r mannau hardd sydd yn Nyffryn Llangollen. Cyfarfod, Maes Parcio Heol y Farchnad.

Dydd Llun 9^{fed} 10^{am}

Cae Caedig II

Parhau i chwynnu'r hen gae yng Nghoed Nercwys i roi cyfle i'r ddol ifanc ffynnu a chymryd rhan yr un pryd mewn arolwg planhigion. Cyfarfod yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 593)



Dydd Mawrth 10^{fed} 10^{am} – 3^{pm}

Atgyweirio'r Afon

Dewch i'n helpu i atgyweirio rhannau o lannau'r afon, rhwystro rhagor o erydu ac adfer darnau sydd wedi'u golchi i ffwrdd! Cyfarfod ym maes parcio Loggerheads.

Dydd Iau 12^{fed} 10^{am} – 3^{pm}

Gwrychoedd Marw

Helpwch i wella'r fynedfa i'r coetir cymunedol drwy drawsnewid cyll wedi'i docio'n draddodiadol yn gyfres o glwydi. Cyfarfod: Maes parcio bach Glan Morfa (diwedd Marsh Road, y Rhyl) (SJ 007 803)

Dydd Iau 12^{fed} 10^{am}

Gwella'r Graith – Dinas Brân

Mae angen cymorth i drwsio darnau o dir wedi erydu ger waliau'r castell ac sy'n niweidio gwerth archeolegol y safle. Cyfarfod, Maes Parcio Heol y Farchnad, Llangollen 10^{am} – neu wrth y castell am 10.30

Dydd Llun 16^{eg} a Dydd Mawrth 17^{eg}

10^{am} – 3^{pm}. Codi Waliau Sychion

Mae angen help i ail adeiladu'r wal derfyn ar Foel Famau. Dewch i wella'ch gallu neu i ddysgu gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 174 613)



Dydd Mawrth 24^{ain}, Dydd Mercher 25^{ain} &

Dydd Gwener 27^{ain} Gorffennaf 10^{am} – 4^{pm}

Gwneud Golosg

Rhowch gynnig ar wneud golosg traddodiadol; golosg am ddim i bawb sy'n cymryd rhan!

Dydd Mawrth – llenwi'r odyd, dydd Mercher - cynnau a llosgi, dydd Gwener – bagio'r cynnyrch.

Lein Reilffordd Cynwyd, Corwen Cyfarfod yng nghilau Stamp (SJ 060 424).

Dydd Mawrth 24^{ain} 10^{am} – 3^{pm}

Tynnu Ffromlys yr Himalaya

Byddwn yn dal i frwydro'n ddi-baid yn erbyn y rhywogaeth ymwithol ar hyd Afon Alyn. Felly, gwisgwch eich esgidiau glaw a dewch i'n helpu i'w dynnu o lannau'r afon. Cyfarfod â ni ym maes parcio Loggerheads.

Dydd Mawrth 24^{ain} 10^{am} – 3^{pm}

Tynnu Creulys Iago (eto...)

Mae rhai rhywogaethau'n dibynnu ar Greulys Iago am fwyd. Fodd bynnag, gan y gallai ddod yn gae gwair, a'i bod yn agos at gaeau lle mae ceffylau'n pori, rydyn ni'n ceisio cael gwared ohono o warchodfa Rhuddlan. Peidiwch â phoeni, byddwn yn gwneud ychydig o dasgau eraill i dorri ar y dasg yma! Cyfarfod: Prif faes parcio Gwarchodfa Natur Rhuddlan (SJ 020 777)

Dydd Mercher 25^{ain} 10^{am} - 3^{pm}

Clec i'r Clogwyn

Gwisgwch eich esgidiau cryf a cherdded Clogwyn Cilcain i drwsio a chynnal a chadw'r llwybrau troed. Cyfarfod: Gorsaf Bwmpio Cilcain (SJ 172 647).

Dydd Llun 6^{ed} a Dydd Mawrth 7^{fed}
10^{am} – 3^{pm} . Codi Waliau Sychion



Mae angen help i ail adeiladu'r wal derfyn ar Foel Famau. Dewch i wella'ch sgiliau neu i ddysgu gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod ym maes parcio Bwlch Penbarras (SJ 174 613)

Dydd Mawrth 7^{fed} 10^{am} – 3^{pm}
Perllan Bruton

Ar adeg argraffu'r llyfryn, mae 500 o goed perllan yn barod i'w plannu gydag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru. Dewch i weld sut mae perllan Parc Bruton yn datblygu a'i helpu i lwyddo gyda rhywfaint o waith cynnal a chadw ar yr ardal o gwmpas. Os byddwn ni wedi llwyddo i blannu'r coed, cwrs gwrs!
Cyfarfod yn Tarquin Drive, y Rhyl (o Vale Road - y cyntaf ar y dde oddi ar Ffordd Bryn Cwnin) (SJ 027 801)

Dydd Iau 9^{fed} 10^{am}

Gosod Meinciau Rhan 2

Mae angen help i osod meinciau newydd ar nifer o'r mannau hardd sydd yn Nyffryn Llangollen.
Cyfarfod, Maes Parcio Heol y Farchnad.

Dydd Mawrth 14^{eg} 10^{am} – 3^{pm}

Gwaith Llwybr

Dewch i'n helpu gyda gwaith cynnal a chadw'r llwybrau o gwmpas y parc i'w cadw mewn cyflwr da i'r cyhoedd eu mwynhau.
Cyfarfod ym maes parcio Loggerheads.

Dydd Iau 1^{eg} 10^{am}-3^{pm}
Ynys Drysor

Taith fer ar gwch i'r ynys yng Ngwarchodfa Natur Pwll Brickfields i helpu clirio llystyfiant a gordyfiant.
Cyfarfod ym Maes Parcio Pwll Brickfields. (SJ 013 804)

Dydd Iau 16^{eg} 10^{am}

Gwaith ar Lwybr Troed Hafn Corwen

Mae angen help i'w gwneud yn haws i bobl gerdded ar yr hen reilffordd gan gynnwys gosod camfa newydd ac ail osod arwyddbost.
Cyfarfod: Maes Parcio Canolfan Hamdden Corwen

Dydd Iau 23^{ain} 10^{am}

Llwybr Clawdd Offa

Mae angen helpu i atgyfnerthu rhannau o Lwybr Clawdd Offa ger Llethr Eglwyseg. Gan fod lle parcio'n brin, cyfarfod ym Maes Parcio Heol y Farchnad, Llangollen am 10.00am.

Dydd Mawrth 28^{ain} 10^{am}-3^{pm}

Tynnu Ffromlys yr Himalaya

Unwaith eto, gwisgwch eich esgidiau glaw i fynd at yr afon i dynnu rhagor o Ffromlys yr Himalaya. Cyfarfod ym maes parcio Loggerheads.



Medi

Dydd Mawrth 4^{ydd} 10^{am} – 3^{pm}

Tynnu Prysgwydd

Mae nifer o wahanol gynefinoedd ym Mharc Gwledig Loggerheads sy'n ei wneud yn le arbennig iawn. Dewch i'n helpu i gael gwared rhywfaint o'r rhywogaethau ymwithiol i gadw'r cynefin bregus ar y pafin carreg galch! Cyfarfod yn y maes parcio.

Dydd Iau 6^{eg} 10^{am}

Gosod Meinciau Rhan 3

Mae angen help i osod meinciau newydd ar nifer o'r mannau hardd sydd yn Nyffryn Llangollen.

Cyfarfod, Maes Parcio Heol y Farchnad.

Llun 10^{fed} 10^{am} – 3^{pm}

Adfer Gweundir Grug

Dewch a'n helpu i atgyweirio'r difrod ar y safle yma o bwysigrwydd rhyngwladol. Naill ai cyfarfod â'r warden ym Mharc Gwledig Loggerheads am 1.15am neu ar Fwlch y Groes (SJ 150 448) am 10^{am}.



Dydd Mawrth 11^{eg} a Dydd Mercher

12^{fed}, 10^{am} Ffiniau'r Goedwig

Mae'r wal gerrig wedi disgyn ar rai mannau o gwmpas Coed Nercwys. Dewch i helpu i ail adeiladu'r wal derfyn gyda hyfforddwr profiadol. Cyfarfod yn y maes parcio gogleddol (SJ 218 593)



Dydd Iau 13^{eg} 10^{am} – 3^{pm}

Cronfa Enynnau Llygod Pengrwn y Dŵr

Byddwn yn torri'r prysgwydd tal ac yn adfer yr hen ffos er mwyn iddi ddal dŵr unwaith eto. Gobeithio y bydd hynny'n rhoi'r cyswllt ecolegol i lygod pengrwn y dŵr yr ardal gymysgu ac ymestyn i gynefinoedd eraill. Cyfarfod: Tu allan i swyddfa Cefn Gwlad, Pwll Brickfields. (SJ 020 777)

Dydd Iau 13^{eg} 10^{am}

Gwaith y Llwybr Rhostir

Mae angen cynnal a chadw bob blwyddyn i drwsio rhannau wedi erydu o Lwybr Clawdd Offa sy'n croesi Mynydd Llandegla. Mae lifft ar gael o Faes Parcio Heol y Farchnad am 10^{am} neu gyfarfod ar safle ble mae Llwybr Clawdd Offa'n gadael Ffordd World's End GR SJ 234 495 am 10.30

Dydd Mawrth 18^{fed} a

Dydd Mercher 19^{eg} 10^{am} – 3^{pm}

Adeiladu Wal Coetir

Dewch i helpu adfer wal derfyn gerrig y Parc Gwledig ger Foel Arthur gydag hyfforddwr adeiladu wal gerrig sychion cymwysedig. Cyfarfod: Maes parcio Moel Arthur (SJ 147 658)



Dydd Llun 24^{ain} a Dydd Mawrth 25^{ain}

10^{am} – 3^{pm}. Ardal Natur ym Mhenycloddiau

Dewch i'n helpu i barhau â'r gwaith da o wella'r cynefin yn yr ardal natur ym Mhenycloddiau. Tatws pob i giniol! Cyfarfod ym maes parcio Coed Llangwyfan. (SJ 138 669)



dewch i drio



Gwella'r Fynedfa i Gastell Dinas Brân.

Y diweddaraf!

Yr haf yma, bydd staff AHNE estynedig Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn eithriadol o brysur yn gweithio i wella llawer iawn ar fynediad i Gastell Dinas Brân yn Llangollen.

Bydd hynny'n amrywio o osod camfeydd, arwyddion a giatiau mochyn pwrpasol i waith mwy technegol megis gosod llwybrau cerrig yn y castell ei hunan. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn ateb problemau erydu mewn mannau sensitif sy'n niweidio cyfanrwydd archeolegol y safle. Byddwn hefyd yn datblygu defnyddiau dehongli newydd i helpu ymwelwyr i ddeall pwysigrwydd y castell a'i amgylchedd.

Byddwn yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i wirfoddolwyr ar Ddinas Brân eleni, o wella mynediad i arolygon bywyd gwyllt a rheoli cynefinoedd.

Os ydych â diddordeb, cysylltwch â Ros Stockdale (01978 869615 – e-bost ros.stockdale@denbighshire.gov.uk) a gofynnwch am gael eich ychwanegu at y rhestr gyswllt, yna byddwn yn eich hysbysu am ddatblygiadau yn y dyfodol.